Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn

# Sir Benfro

Arolygiaeth Prawf EF, Mawrth 2025

# Cynnwys

**Rhagair** .....3
**Sgoriau** .....4
**Argymhellion** .....5
**Cefndir** .....6
**Parth un: Darpariaeth sefydliadol** .....7
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .....7
1.2. Staff .....9
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .....11
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .....13
**Parth dau: Datrysiadau yn y llys** .....18
2.1. Asesu .....18
2.2. Cynllunio .....19
2.3. Gweithredu a darparu .....20
2.4. Adolygu .....21
**Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** .....22
3.1. Asesu .....22
3.2. Cynllunio .....24
3.3. Gweithredu a darparu .....25
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrys achosion y tu allan i'r llys .....26
**4.1. Ailsefydlu** .....28
4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu .....28
**Rhagor o wybodaeth** .....30

### Cydnabyddiaethau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Caren Jones, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

### Rôl Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid gydag oedolion a phlant.

**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-82-4

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r tîm cyfiawnder ieuenctid (TCI). Rydym wedi arolygu a sgorio TCI Sir Benfro mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Yn gyffredinol, cafodd GCI Sir Benfro sgôr 'Da'. Fe wnaethom hefyd arolygu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu, a gafodd eu sgorio ar wahân fel 'Angen Gwella'.

Mae TCI Sir Benfro yn wasanaeth myfyriol a blaengar. Mae arweinwyr, ymarferwyr a'r bwrdd rheoli wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i blant ac maen nhw'n gwahodd academyddion i werthuso agweddau ar eu gwaith. Defnyddir data i ddadansoddi newidiadau ym mhroffil anghenion plant gan arwain at ddull partneriaeth ymatebol o addasu llwybrau a chomisiynu gwasanaethau. Mae'r bwrdd rheoli wedi ymroi i'r TCI, ac mae aelodau'r bwrdd yn sicrhau bod proffil y gwasanaeth yn ddigon uchel ymysg trefniadau partneriaeth strategol ehangach. Mae'r bwrdd rheoli a'r TCI yn cydnabod bod diffyg adnodd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn fwlch yn y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod trefniadau partneriaeth yn cefnogi ailsefydlu, ond bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu polisi effeithiol a chanllawiau ymarfer sy'n amlinellu cyfrifoldebau penodol asiantaethau allweddol.

Mae staff a rheolwyr y TCI yn ymroddedig ac yn wybodus. Maent yn dangos gofal gwirioneddol wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a dioddefwyr. Mae defnyddio'r model ar gyfer rheoli achosion uwch a'r dulliau wedi'u gwreiddio sy'n ystyriol o drawma yn hyrwyddo dulliau unigol ac wedi'u teilwra ar gyfer ystyried a diwallu anghenion datblygiadol plant. Gwelsom arferion cyson o safon wrth asesu, cynllunio, darparu ac adolygu gwaith ar ôl y llys.

Yn ddiweddar, mae'r TCI wedi cynnal adolygiad system gyfan o'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Mae hyn wedi arwain at greu fframwaith datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer plant, datblygu panel amlasiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau a chomisiynu hyfforddiant i wella arferion asesu datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae'r TCI wedi uwchgyfeirio pryderon ynghylch defnyddio erlyniadau gohiriedig a chanlyniadau dargyfeiriol mewn modd anghyson ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys at fwrdd rheoli'r TCI. Serch hyn, mae diffyg cynrychiolaeth strategol yr heddlu ar y bwrdd rheoli wedi bod yn rhwystr i gynnydd amserol, ac felly mae hyn yn cael sylw yn ein hargymhellion.

Mae'r TCI wedi bod drwy gyfnod o newid, sy'n golygu bod mwy a mwy o alw ar ymarferwyr a rheolwyr. Gwelsom fod rhychwant rheolaeth eang, a bod y gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr yn cael ei gyflawni gan ymarferwyr a rheolwyr sy'n aml yn mynd yr ail filltir i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Er gwaethaf yr heriau, mae hwn yn wasanaeth llawn cymhelliant a ddylai ymfalchïo yn ei gynnydd hyd yma. Wrth symud ymlaen, mae gan y bwrdd rheoli rôl hollbwysig o ran sicrhau bod gan y TCI ddigon o adnoddau i adeiladu ar ei gryfderau presennol ac i wneud gwelliannau pwysig o ran darparu gwasanaethau i blant.



**Martin Jones CBE**
Prif Arolygydd Prawf EF

# Sgoriau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro**<br>Dechreuodd y gwaith maes ym mis Hydref 2024 | | **Sgôr** | **26/36** |
| **Sgôr gyffredinol** | | **Da** | |
| 1. | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Da** | |
| 1.2 | Staff | **Da** | |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Da** | |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Rhagorol** | |
| 2. | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesu | **Da** | |
| 2.2 | Cynllunio | **Rhagorol** | |
| 2.3 | Gweithredu a darparu | **Rhagorol** | |
| 2.4 | Adolygu | **Rhagorol** | |
| 3. | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Angen gwella** | |
| 3.2 | Cynllunio | **Da** | |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Da** | |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth ar gyfer datrys achosion y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | |
| 4. | **Ailsefydlu**[1] | | |
| 4.1 | Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu | **Angen gwella** | |

[1] Nid yw'r sgôr ar gyfer Ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr gyffredinol y TCI.

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud wyth argymhelliad y credwn y byddant, os cânt eu gweithredu, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â'r tîm cyfiawnder ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro wneud y canlynol:**

gweithredu a gwreiddio fframwaith datrysiadau y tu allan i'r llys Sir Benfro ar gyfer plant 2024-2026 a sicrhau bod gan y panel amlasiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau gynrychiolaeth gyson o'r bartneriaeth

sicrhau bod rheolwyr y TCI yn gallu goruchwylio'r broses o asesu gwaith y tu allan i'r llys yn gyson ac yn effeithiol

gweithio gyda phartneriaid i adolygu'r polisi ailsefydlu a datblygu canllawiau ymarfer i gryfhau'r trefniadau presennol

cofnodi lleisiau plant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr yn gyson a'u dadansoddi i lywio'r gwaith o adolygu'r polisïau, y prosesau a'r ddarpariaeth.

**Dylai'r Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid:**

1. sicrhau bod gan y TCI ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau o safon i blant, rhieni a gofalwyr, a dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys meithrin gallu'r gwasanaeth i weithredu'r fframwaith diwygiedig ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn effeithiol
2. sicrhau bod plant sy'n cael eu cefnogi gan y TCI yn cael eu hasesu a bod ganddynt fynediad penodol at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Dylai Heddlu Dyfed-Powys:**

3. adolygu'r defnydd o Ganlyniad 22 neu opsiynau erlyn gohiriedig eraill i sicrhau bod plant yn cael mynediad prydlon a chyson at ymyriadau dargyfeiriol priodol cyn gynted â phosibl
4. sicrhau bod cynrychiolaeth yr heddlu, ar lefel ddigon uchel, yn mynychu bwrdd rheoli'r TCI.

# Cefndir

Fe wnaethom y gwaith maes yn TCI Sir Benfro dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 28 Hydref 2024. Fe wnaethom archwilio achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded, lle deliwyd ag achosion y tu allan i'r llys, a lle dedfrydwyd neu lle rhyddhawyd achosion ailsefydlu rhwng 30 Hydref 2023 a 23 Awst 2024. Fe wnaethom hefyd gynnal 13 o gyfweliadau â rheolwyr achosion neu eu rheolwyr llinell.

Mae Sir Benfro yn awdurdod lleol unedol yn ne-orllewin Cymru. Mae poblogaeth Sir Benfro yn 125,000, sy'n golygu mai hon yw'r bedwaredd sir leiaf poblog o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Plant 10-17 oed yw 9.2 y cant o boblogaeth gyffredinol Sir Benfro o'i gymharu â 9.7 y cant ar draws Cymru a Lloegr. Mae natur wledig yn ffactor sylweddol yn nemograffeg Sir Benfro, ac mae cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig yn golygu bod y TCI yn teithio i bob cwr o'r sir i ddarparu gwasanaethau i blant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 97.6 y cant o bobl Sir Benfro wedi nodi mai gwyn yw eu grŵp ethnig a dywedodd 52.7 y cant eu bod yn Gymry gwyn yn hytrach na gwyn Prydeinig neu wyn Cymreig/Prydeinig. Mae 17 y cant o drigolion Sir Benfro yn siarad Cymraeg.

Mae TCI Sir Benfro yn rhan o gyfarwyddiaeth addysg Cyngor Sir Penfro. Mae'r TCI yn un o bedwar tîm yn y gwasanaeth ieuenctid integredig sy'n cael eu goruchwylio gan y prif swyddog ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r TCI yn gweithredu ochr yn ochr â thîm ieuenctid wedi'i dargedu, tîm ieuenctid cymunedol a thîm atal digartrefedd. Yn weithredol, mae hyn yn darparu cymorth cofleidiol i blant sy'n defnyddio'r TCI gan fod gweithwyr ieuenctid wedi'u lleoli ym mhob ysgol uwchradd leol, y coleg a darpariaethau addysg allgymorth. Mae'r tîm ieuenctid cymunedol yn cefnogi'r TCI gyda gweithgareddau dargyfeiriol a strategaethau cynllunio ar gyfer gadael ac mae'r tîm atal digartrefedd yn darparu cymorth tenantiaeth. Mae'r prif swyddog hefyd yn goruchwylio'r gwasanaeth addysg ôl-16, ac mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i blant yng ngharfan y TCI gael mynediad at hyfforddiant llythrennedd.

Yn unol â Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, mae TCI Sir Benfro yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar a dargyfeirio oddi wrth y system gyfiawnder. Adeg gwaith maes yr arolygiad, roedd gan y TCI 61 o ymyriadau agored ac roedd 27 ohonynt ar gyfer gwaith atal a dargyfeirio. Mae data a ddarperir gan y gwasanaeth yn dangos bod gan bron i hanner y plant sy'n gweithio gyda'r TCI anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bod tua thraean yn cael eu hasesu fel pryderon mawr o ran diogelwch a llesiant. Mae hyn yn dangos pa mor agored i niwed yw'r garfan. Mae gan y TCI ymrwymiad cryf i egwyddorion rhoi plant yn gyntaf ac mae model ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ystyriol o drawma yn ategu hyn.

Mae trefniadau llywodraethu'r gwasanaeth yn cael eu goruchwylio gan fwrdd rheoli'r TCI sy'n cael ei ddwyn i gyfrif gan gadeirydd annibynnol. Mae ardaloedd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys.

Mae TCI Sir Benfro yn cydnabod bod nifer y bobl sy'n ymuno am y tro cyntaf yn uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth wedi ymateb drwy gynnal dadansoddiad o'r garfan ac adolygiad system gyfan o'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

## Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu'r ddarpariaeth sefydliadol, fe wnaethom adolygu’r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y GCI ymlaen llaw, ac aethom ati i gynnal 16 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff y bartneriaeth a’u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

### 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y TCI yn ei gefnogi ac yn ei hyrwyddo i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon ar gyfer pob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae gweledigaeth y TCI wedi’i gwreiddio. Ceir ymateb partneriaeth strategol cydlynol i gefnogi anghenion plant a theuluoedd.
- Mae aelodau’r Bwrdd yn ymroddedig i waith y TCI. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau, anghenion y gwasanaeth a phroffil y plant sy’n gweithio gyda’r gwasanaeth.
- Y partneriaid statudol yw aelodau’r bwrdd yn bennaf; maent yn rhoi blaenoriaeth i bresenoldeb ac yn sicrhau bod gan y TCI broffil gweladwy o fewn y trefniadau partneriaeth.
- Mae aelodau’r Bwrdd yn darparu cyswllt cryf rhwng y TCI a byrddau partneriaethau strategol allweddol eraill yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn sicrhau ffocws clir ar ymyrraeth gynnar, atal, ac integreiddio effeithiol â gwasanaethau ehangach i ddiwallu anghenion plant.
- Mae trefniadau comisiynu a phartneriaeth yn galluogi darpariaeth fewnol ar gyfer gwaith ar gamddefnyddio sylweddau a chefnogaeth gan seicolegwyr addysgol. Mae’r gwasanaeth yn elwa o secondiadau o’r heddlu a’r gwasanaeth prawf.
- Datblygwyd cynllun y TCI drwy ymgynghori’n ystyrlon ag aelodau’r bwrdd, rhanddeiliaid a staff. Mae cynllun y TCI wedi cael ei rannu â fforwm y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Mae aelodau’r bwrdd wedi meithrin perthynas ac mae diwylliant o dryloywder a her iach.
- Bu newid yn ddiweddar yn nhrefniadau cadeirio’r bwrdd rheoli. Mae gan y cadeiryddion annibynnol presennol a blaenorol wybodaeth a phrofiad strategol helaeth. Maent wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant ac maent yn dwyn aelodau’r bwrdd a’r TCI i gyfrif.
- Mae gan y TCI dîm arweinyddiaeth sefydlog a gwybodus sy’n cael ei barchu o fewn yr awdurdod a’r bartneriaeth ehangach. Mae’n darparu cyswllt effeithiol rhwng y TCI a’r bwrdd.

- Cyflwynir astudiaethau achos i'r bwrdd, ac mae'n goruchwylio plant sy'n cael eu dedfrydu, eu remandio neu sydd mewn perygl o fynd i'r ddalfa.  Cyfeirir at y bwrdd rheoli hefyd ar bob tor-amod.
- Mae trefniadau cynefino effeithiol ar gyfer aelodau'r bwrdd yn sicrhau bod uwch arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Mae cadeirydd annibynnol newydd y bwrdd rheoli wedi cwrdd ag arweinwyr a staff y TCI, ac maent yn awyddus i ddatblygu cysylltedd rhwng y bwrdd rheoli a'r tîm.
- Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i weithredu a gwreiddio dull gweithredu sy'n rhoi plant yn gyntaf ac yn ystyriol o drawma.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r newidiadau a'r swyddi gwag yn Heddlu Dyfed-Powys wedi golygu nad yw cynrychiolydd o'r heddlu sydd ar lefel ddigon uchel yn cael ei ddyrannu i fwrdd rheoli Sir Benfro. Nid yw cynrychiolaeth bresennol yr heddlu, er ei bod yn cyfrannu'n werthfawr at waith gweithredol a strategol y TCI, ar lefel ddigon uchel i ymateb i'r pryderon sy'n cael eu huwchgyfeirio, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â defnyddio erlyniadau gohiriedig a chanlyniadau dargyfeiriol mewn ffordd deg ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Nid yw aelodau'r Bwrdd yn darparu data o'u gwasanaeth eu hunain fel mater o drefn i hyrwyddo dadansoddiad cyfannol o themâu a thueddiadau ar draws y bartneriaeth. Nid yw'r data cyfredol sy'n cael ei adrodd i fwrdd y TCI yn cynnwys nifer y plant sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau camfanteisio, prydlondeb atgyfeiriadau gan yr heddlu i'r TCI, na'r defnydd o leoliadau gweithredu heb gofrestru ar gyfer plant sy'n agored i'r TCI.
- Mae arweinwyr y TCI yn rhannu diweddariadau'r bwrdd rheoli â'r tîm yn gyson, ond nid yw aelodau'r bwrdd yn clywed yn uniongyrchol gan staff, gwirfoddolwyr, plant na'u rhieni neu'u gofalwyr. Mae angen cryfhau cysylltedd i sicrhau bod goruchwyliaeth strategol effeithiol o weithgarwch gweithredol.
- Mae sgrinio arferol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn nodi lefel uchel o angen heb ei ddiwallu yn y garfan cyfiawnder ieuenctid. Cydnabyddir bod diffyg arbenigwr iaith a lleferydd yn creu bwlch yn y gwasanaeth a ddarperir.
- Mae gan y TCI a'r bwrdd ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau i'r gwasanaeth, ond nid yw hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol mewn cofrestr risg sy'n benodol i'r gwasanaeth.

## 1.2. Staff

| | |
|---|---|
| Mae staff yn y GCI wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae rheolwyr a staff yn ymroddedig, yn frwdfrydig ac yn angerddol am eu gwaith. Maent yn dangos gofal gwirioneddol i blant, a gwelsom ddull tîm o gefnogi anghenion plant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr.
- Mae gan y TCI dîm statudol a thîm atal. Yn ymarferol, gwelsom fod y timau'n gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd gan ganolbwyntio ar les y plentyn.
- Mae dull cyfannol o ddyrannu achosion, ac mae plant yn cael eu paru ag ymarferwyr sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae goruchwyliaeth yn digwydd yn aml ac mae'n cydbwyso anghenion y gwasanaeth â llesiant yr ymarferwyr. Mae goruchwyliaeth ar y cyd yn digwydd pan fydd staff yn cael eu secondio neu pan fydd ganddynt fwy nag un rheolwr llinell. Mae arfarniadau blynyddol a chynlluniau llesiant yn sail i ddadansoddiad o anghenion hyfforddi'r TCI.
- Mae darpariaeth gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol i staff. Mae'r TCI wedi'i hyfforddi yn y dull Rheoli Achosion Uwch ac mae nifer o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant AIM3 ar ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu sgiliau asesu.
- Mae gan wirfoddolwyr fynediad at borth hyfforddi'r awdurdod lleol ac mae ganddynt sylwadau cadarnhaol am ansawdd yr hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddiogelu, camfanteisio a cham-drin domestig.
- Mae'r TCI yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygu gyda chyfleoedd i staff gymryd rhan mewn cyrsiau academaidd gan gynnwys y radd Cyfiawnder Ieuenctid, y Dystysgrif Ymarfer Effeithiol Cyfiawnder Ieuenctid a'r dyfarniad Gwaith Ieuenctid. Mae rheolwyr wedi cwblhau cyrsiau arweinyddiaeth ac fe'u hanogir i gymryd rhan mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn bod ar flaen y gad yng nghyswllt arferion cyfiawnder ieuenctid cyfredol.
- Mae rheolwyr y GCI wedi cefnogi staff newydd yn dda. Ceir llawlyfr cynefino ac amserlen bersonol sy'n sicrhau bod ymarferwyr newydd yn cael cyfleoedd i arsylwi ymarfer ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff y bartneriaeth.
- Mae'r fforwm ymarferwyr yn rhoi cyfle i staff gwrdd fel grŵp i drafod themâu amserol. Mae trafodaethau'r grŵp ymarferwyr yn cael eu casglu a'u bwydo i'r cyfarfodydd tîm misol sy'n hyrwyddo diwylliant o gydweithio.
- Mae rheolwyr yn cydnabod bod newidiadau i drefniadau staffio wedi effeithio ar lesiant y tîm. Mae rheolwyr wedi bod yn ymatebol drwy ffurfioli mentrau llesiant mewn polisïau. Cynhelir digwyddiadau llesiant y tîm sawl gwaith y flwyddyn.
- Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y trefniadau goruchwylio clinigol grŵp a gaiff eu hwyluso gan seicolegwyr addysg.
- Mae anghenion amrywiaeth staff yn cael eu cydnabod a'u cefnogi'n dda.

- Roedd cynllunio ar gyfer olyniaeth yn gryfder. Roedd nifer o'r staff wedi datblygu drwy rolau amrywiol y TCI, ac o rolau ymarferwyr i rolau rheolwyr.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae newidiadau staffio ac absenoldebau wedi effeithio ar allu'r TCI i gyflawni ei gyfrifoldebau craidd o fewn oriau gwaith safonol. Gwelsom enghreifftiau o staff a rheolwyr yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i blant yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod pontio hwn.
- Mae gan reolwyr ac uwch ymarferwyr y TCI rychwant rheolaeth a chyfrifoldebau eang. Mae uwch ymarferwyr yn cydbwyso cyfrifoldebau rheoli achosion â thasgau eraill, fel sicrhau ansawdd, goruchwylio, cyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch datblygu. Mae uwch reolwyr yn cydbwyso gofynion ychwanegol ymarfer gweithredol â gofynion ymrwymiadau strategol.
- Canfu'r arolygwyr amrywiaeth o ran ansawdd arferion datrys achosion y tu allan i'r llys. Nid yw prosesau goruchwylio yn cefnogi diogelwch y plentyn na diogelwch pobl eraill yn gyson.
- Nid yw gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwylio ac nid ydynt yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau tîm fel mater o drefn.
- Nid oes mecanweithiau ffurfiol ar waith i gydnabod a gwobrwyo ymarfer eithriadol.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae'r TCI yn cael ei barchu gan y bartneriaeth ehangach ac mae'r bartneriaeth yn ymroddedig i waith y TCI. Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn seiliedig ar gysylltiadau strategol a gweithredol sefydledig, cyfathrebu adeiladol a her iach.
- Mae'r bartneriaeth yn deall proffil plant sy'n cael cymorth gan y TCI. Mae ymdeimlad o gydgyfrifoldeb a pherchnogaeth wrth ddiwallu anghenion plant.
- Mae'r model gwasanaeth ieuenctid integredig yn hyrwyddo cymorth cyfannol a chofleidiol i blant. Daeth arolygwyr o hyd i gysylltiadau cydweithio effeithiol rhwng y TCI a thimau ehangach y gwasanaeth ieuenctid.
- Mae ymateb y bartneriaeth i gefnogi diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill yn gryfder. Mae cyfarfodydd amlasiantaeth ar risgiau a diogelwch dan arweiniad y TCI yn cael eu mynychu'n dda, ac mae'r bartneriaeth yn ymatebol pan fydd y TCI yn cynnull cyfarfodydd risg 'unigol' brys.
- Mae trefniadau comisiynu gyda'r tîm seicoleg addysg wedi arwain at ffordd arloesol o gyflwyno'r dull Rheoli Achosion Uwch sy'n seiliedig ar y Model Adfer ar ôl Trawma. Mae seicolegwyr addysg yn hwyluso cyfarfodydd ffurfio amlasiantaeth gyda'r adroddiad yn manylu ar broffil datblygiadol y plentyn sy'n fodd i weithwyr proffesiynol deilwra ymyriadau i ddiwallu anghenion unigol.
- Mae dull partneriaeth gyfannol ar waith i ddiwallu anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant. Mae'r tîm allgymorth ieuenctid a'r gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn rhoi cymorth uniongyrchol ac unigol i blant. Caiff llwybrau ar gyfer uwchgyfeirio, os nad yw'r ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ddigonol, eu deall a'u defnyddio'n effeithiol.
- Ceir perthynas waith gydlynol rhwng y TCI a gofal cymdeithasol plant. Gwahoddir y TCI i gyfarfodydd strategaeth, y fforwm amlasiantaeth ar gyfer camfanteisio ar blant, cyfarfodydd gofal a chymorth a chyfarfodydd amddiffyn plant. Mae gofal cymdeithasol plant yn mynychu'r fforymau rheoli risg dan arweiniad y TCI. Canfu'r arolygwyr enghreifftiau unigol o gydweithio cryf ac uwchgyfeirio priodol pan fo angen.
- Mae plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio yn cael ymateb amlasiantaeth priodol i reoli'r risgiau.
- Mae'r TCI yn elwa o drefniadau secondio ac mae'r heddlu'n cefnogi panel gwneud penderfyniadau'r biwro a chyfraniadau at y fforymau rheoli risg.
- Mae trefniadau partneriaeth gyda'r maes iechyd yn cael eu targedu'n briodol a gall plant gael gafael ar gymorth ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl.
- Mae gan blant fynediad at gymorth camddefnyddio sylweddau a cheir darpariaeth fewnol sy'n sicrhau ymateb prydlon sydd wedi'i deilwra i asesu ac ymyrryd.

- Mae swyddog prawf ar secondiad wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar i ddatblygu prosesau pontio rhwng ieuenctid ac oedolion.
- Mae prosesau dioddefwyr wedi cael eu sefydlu a'u deall. Canfu'r arolygwyr fod dymuniadau a diogelwch y dioddefwr yn cael eu hystyried yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r TCI yn cymryd camau i ddatblygu rôl y gweithiwr dioddefwyr.
- Mae gan y TCI ddarpariaeth ataliol drawiadol i blant. Mae'r panel atal yn trafod atgyfeiriadau unigol â phlant sy'n cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cefnogaeth wirfoddol i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn ymuno â'r system gyfiawnder. Mae'r gweithgor amlasiantaeth yn trafod ardaloedd lle ceir achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn datblygu ymateb partneriaeth wedi'i dargedu.
- Mae'r TCI wedi creu perthynas â'r llysoedd, ac mae prosesau ar waith ar gyfer cael adborth ynghylch ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu. Mae'r TCI wedi darparu sesiynau hyfforddi i ynadon.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r TCI yn sgrinio anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn rheolaidd. Mae'r gwaith sgrinio hwn wedi canfod lefel uchel o angen heb ei ddiwallu. Mae llwybrau presennol drwy'r awdurdod lleol ac ysgolion. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion y garfan.
- Mae casglu adborth gan blant a rhieni neu ofalwyr yn rhan annatod o arferion y TCI, ond nid yw safbwyntiau'n cael eu casglu na'u dadansoddi'n gyfannol i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae gan y gwasanaeth ieuenctid fframwaith achredu, ond nid yw gweithgareddau gwneud iawn yn arwain at gymwysterau ffurfiol i blant.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

☆

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol ar waith i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Rhagorol |

**Cryfderau:**

- Mae arweinwyr y TCI yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygu, ac maent yn frwd dros gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf mewn arferion cyfiawnder ieuenctid. Mae'r TCI yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd ei wasanaeth ac yn gwahodd academyddion i werthuso agweddau ar ei waith.
- Mae rheolwr gweithredol y TCI wedi cyd-gadeirio digwyddiadau dysgu Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaeth ac wedi arwain adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol. Mae'r dysgu'n cael ei gofnodi a'i rannu â'r TCI, y bwrdd rheoli a'r bartneriaeth ehangach.
- Mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u cadarnhau'n rheolaidd gan fwrdd rheoli'r TCI. Mae adolygu'n ymgorffori newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol ac adroddiadau Arolygiaeth Prawf EF. Mae'r polisïau'n hygyrch i staff ac yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.
- Mae adroddiadau perfformiad yn cynnwys manylion manwl gywir am y garfan o blant sy'n agored i'r TCI ar sail statudol, ddargyfeiriol ac ataliol. Mae'r data'n cael ei ddadansoddi a rhoddir naratif i'r bwrdd rheoli. Mae adroddiadau perfformiad yn cynnwys defnyddio pecyn cymorth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar drais difrifol a'r pecyn cymorth anghymesuredd. Byddai'r gwasanaeth yn elwa o gofnodi nodweddion gwarchodedig pob plentyn yn gyson.
- Defnyddir data perfformiad i ddadansoddi newidiadau ym mhroffil plant. Yn sgil cydnabod niferoedd uchel o bobl a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r troseddau a chroesgyfeiriwyd at ddata'r heddlu ac addysg.
- Mae canllaw Iaith, Diwylliant a Threftadaeth Cymru y TCI yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfwriaeth a pholisïau Cymru sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae gan y TCI nifer o brosesau sicrhau ansawdd i fynd ati'n rhagweithiol i sbarduno gwelliannau ac i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu. Mae tîm arwain y TCI wedi cynnal archwiliadau helaeth fel ffordd o nodi themâu i'w datblygu. Arweiniodd hyn at gomisiynu hyfforddiant i wella ansawdd y gweithgarwch asesu.
- Mae'r TCI yn deall effaith cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig a natur wledig y sir ar allu plant i ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae plant yn cael eu gweld mewn amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned neu gartref. Mae'r lleoliad lle cânt eu gweld yn cael ei bennu yn ôl ble maen nhw'n teimlo'n ddiogel a beth sy'n hygyrch iddyn nhw.
- Mae paneli gorchmynion atgyfeirio yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, gyda chyfleoedd i gymryd rhan ar-lein neu'n hybrid os yw hyn yn diwallu anghenion plant, teuluoedd a gwirfoddolwyr.

- Bu ffocws o’r newydd ar brosesau gweithio ar eich pen eich hun.  Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn ddiogel wrth wneud eu gwaith.
- Mae gan ymarferwyr y TCI fynediad at systemau gofal cymdeithasol plant, ac mae gan bartneriaid fynediad at eu priod systemau, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu’n effeithiol.
- Mae’r systemau TGCh yn galluogi staff a rheolwyr i weithio’n hyblyg i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.

**Meysydd i’w gwella:**

- Mae polisïau unigol yn cynnwys rhywfaint o ffocws ar y dioddefwr a phrosesau mewn perthynas â gwaith gyda dioddefwyr, ond nid oes polisi cyffredinol ar gyfer dioddefwyr i ddarparu sylfaen ar gyfer ymarfer.

## Cynnwys plant a'u rheini neu'u gofalwyr

Mae'r TCI yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gofnodi lleisiau plant a'u rhieni neu eu gofalwyr. Clywsom glipiau sain gan blentyn a oedd yn awyddus i rannu sut roedd y TCI wedi bod yn allweddol o ran darparu cyfleoedd cadarnhaol i gefnogi ei ymataliad rhag troseddu. Rhannwyd y clipiau sain ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i ddathlu Wythnos Ieuenctid yn Sir Benfro.

Cyflwynir astudiaethau achos i'r bwrdd rheoli ac mae cynllun TCI yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan blant. Mae plant a rhieni neu ofalwyr hefyd yn cyfrannu at asesu, cynllunio, darparu ac adolygu eu hymyriadau. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn mynd ati i gasglu adborth ar ddiwedd cyfnod y plentyn o ymwneud â'r gwasanaeth. Mae'r TCI wedi treialu sawl dull o gasglu adborth mewn ymgais i ddatblygu prosesau ystyrlon sy'n casglu lleisiau pob plentyn a rhiant neu ofalwr yn gyson.

Cysylltodd y TCI â'r plant a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad ar ein rhan er mwyn cael caniatâd ganddynt i gymryd rhan mewn arolwg testun. Fe wnaethom gyflwyno'r arolwg yn annibynnol i'r 21 o blant a roddodd ganiatâd, ac atebodd naw ohonynt.

Fe wnaethom hefyd siarad â chwe phlentyn yn ystod y gwaith maes. Roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben, a chytunodd yr holl gyfranogwyr fod gan ymarferwyr y sgiliau iawn i wneud y gwaith. Dywedodd y plant eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â'u gweithwyr a bod y gweithwyr yn gwrando ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud. Dywedodd un plentyn:

> *"Mae gen i'r rhyddid i ddweud beth sydd angen i mi ei ddweud heb gael fy marnu a gallaf gael y cyngor sydd ei angen arnaf."*

Roedd y plant yn gwerthfawrogi ymateb yr ymarferwyr i gyfarfod mewn lleoliadau hwylus. Dywedodd nifer ohonynt fod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal yn broblem ond bod y TCI wedi cydnabod y mater hwn ac wedi hwyluso sesiynau yn eu hardal. Dywedodd yr holl blant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y mannau lle cawsant eu gweld.

Roedd plant a rhieni neu ofalwyr wedi cael cymorth i gael gafael ar y gwasanaethau iawn i'w helpu i gadw allan o drwbl a dywedodd un plentyn fod y TCI:

> *"...fel arfer yn agored i unrhyw beth rydw i'n gofyn am help gydag ef, fel y diwrnod o'r blaen, fe wnaeth y tîm fy helpu i gael fy nhrwydded dros dro, llenwi'r ffurflenni a mynd â fi i'w postio. Pethau fel hyn - pethau sy'n bwysig i mi."*

Canmolodd nifer o'r plant y rhaglen gweithgareddau dros yr haf a hwyluswyd gan y TCI. Clywsom fod y gweithgareddau'n hwyl, yn bleserus ac yn helpu plant i ddysgu sgiliau newydd.

Fawr iawn o adborth negyddol a gafwyd am y TCI, er i ddau blentyn ddweud bod eu rheolwr achos wedi newid sawl gwaith, gan adlewyrchu o bosibl y newidiadau mewn staff a'r cyfnod pontio a nodwyd yn y safon parth un sy'n ymwneud â 'staff'. Serch hynny, nodwyd nad oedd hyn yn effeithio ar y berthynas â'u gweithwyr, nac ar ansawdd y gwasanaeth, a oedd yn cael ei ystyried yn gryfder. Adlewyrchwyd hyn gan un rhiant a nododd:

> *"Fe wnaethoch chi bopeth posib i helpu fy mab, gwasanaeth gwych i roi cyfle i'r bobl ifanc hyn roi trefn ar eu bywyd, cyn ei bod hi'n rhy hwyr."*

## Amrywiaeth

- Canfu'r arolygwyr enghreifftiau unigol trawiadol o arferion diwylliannol sensitif. Mae staff yn hyderus wrth sgwrsio â phlant am eu profiadau bywyd. Mae eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth wrth ddelio â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth i'w canmol.
- Yn unol â Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, mae arferion sy'n ystyriol o drawma wedi'u gwreiddio ac mae ffocws cryf ar ddargyfeirio plant oddi wrth y system gyfiawnder cyn gynted â phosibl. Mae'r gweithgor amlasiantaeth dan arweiniad y TCI yn defnyddio dulliau diogelu cyd-destunol i dargedu adnoddau partneriaeth mewn cymunedau y nodwyd bod ganddynt lefelau uchel o angen.
- Mae seicolegwyr addysgol a thîm ymgynghori fforensig y glasoed (FACS) yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r dull Rheoli Achosion Uwch ar gyfer plant sydd wedi profi trawma helaeth. Mae'r Model Adfer ar ôl Trawma yn sail i'r dull Rheoli Achosion Uwch, ac mae asesiadau a mewnbwn seicolegol yn cefnogi'r TCI ac asiantaethau partner i benderfynu sut mae trawma wedi effeithio ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y plentyn. Canfu'r arolygwyr enghreifftiau rhagorol o ryngweithio ac ymyriadau'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion datblygiadol unigol y plant.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 17 y cant o drigolion Sir Benfro yn siaradwyr Cymraeg a thybir bod hyn wedi cynyddu o ganlyniad i ehangu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae gan y TCI un siaradwr Cymraeg rhugl a sawl aelod o staff sydd â pheth dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae angen i'r TCI fonitro nifer y plant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr sy'n dewis gwasanaethau cyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y tîm yn gallu parhau i ddiwallu'r angen.
- Mae dadansoddiad cyfredol ar gael o anghenion ymataliad y plant. Mae'r dadansoddiad hwn yn ystyried anghenion amrywiaeth ar draws nifer o nodweddion gwarchodedig. Mae'r TCI yn defnyddio pecyn cymorth anghymesuredd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro'r garfan o blant sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid ac mae'r data'n cael ei gyflwyno ym mwrdd rheoli chwarterol y TCI.
- Yn ddemograffig, mae poblogaeth Sir y Fflint yn wyn ar y cyfan, ac mae'r boblogaeth droseddu, dros y blynyddoedd, wedi adlewyrchu hyn. Ym mis Medi 2024, roedd dau blentyn o grwpiau Du ac ethnig lleiafrifol yn ymwneud â'r TCI, a oedd yn cyfrif am tua chwech y cant o'r boblogaeth droseddu. Mae cyfran y plant rhwng 10 ac 17 oed o gefndir Du ac ethnig lleiafrifol yn Sir Benfro yn bedwar y cant, sy'n dangos bod rhywfaint o orgynrychiolaeth, sydd wedi cael ei nodi gan uwch arweinwyr a'i drafod ym mwrdd rheoli'r TCI.
- Mae'r model gwasanaeth ieuenctid integredig yn gryfder. Mae gan blant sy'n agored i'r TCI, ar unrhyw fath o raglen neu ddatrysiad, fynediad uniongyrchol at gymorth cofleidiol timau'r gwasanaeth ieuenctid. Mae gweithwyr allgymorth ieuenctid yn cefnogi pob plentyn sy'n agored i'r TCI nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae dealltwriaeth nad yw pob plentyn yn barod i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac felly mae'r sesiynau wedi'u teilwra i amgylchiadau'r plentyn gan ddarparu dull cefnogol a graddol o gael gafael ar ddarpariaethau priodol.
- Mae'r TCI wedi creu a darparu ymyriadau penodol i'w defnyddio gyda merched.

- Nid oes gan y TCI adnodd lleferydd ac iaith pwrpasol. Er gwaethaf mesurau lliniaru a mynediad at adnoddau, mae hyn yn dal i fod yn fwlch sylweddol yn y gwasanaeth a ddarperir.
- O'r wyth aelod o staff a'r tri gwirfoddolwr a nododd angen o ran amrywiaeth yn arolwg Arolygiaeth Prawf EF, dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi cael ymateb 'da iawn' neu 'eithaf da' i'w hanghenion o ran amrywiaeth.

## Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar chwe dedfryd gymunedol a oedd dan ofal y TCI.

### 2.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Da |

Mae ein sgôr[2] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r asesiad yn dadansoddi'r canlynol yn ddigonol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| sut mae cefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| sut mae cadw'r plentyn yn ddiogel? | 83% |
| sut mae cadw pobl eraill yn ddiogel? | **67%** |

Aseswyd ymataliad yn dda ym mhob achos. Mae'r TCI wedi gwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn ei waith gyda phlant a gwelsom fod pob asesiad yn cynnwys y plentyn yn dda ac yn canolbwyntio ar ddatblygu ei ffactorau amddiffynnol.

Defnyddiodd yr ymarferwyr yn gyson amrywiaeth o wybodaeth gan asiantaethau eraill i ddadansoddi'n gyfannol amgylchiadau a chymhellion personol y plentyn sy'n sail i'w ymddygiad. Roedd ymarferwyr yn hyderus yn sgwrsio â'r plant i ddeall eu profiadau bywyd a'u hanghenion unigol. Gwelsom enghreifftiau o arferion asesu sy'n ddiwylliannol sensitif lle treuliodd y gweithwyr achos amser yn ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a'u rhieni i ddeall normau diwylliannol. Gwelsom fod y TCI wedi llwyddo i ymgysylltu â phlant a theuluoedd a oedd wedi colli ymddiriedaeth mewn asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd y dull Rheoli Achosion Uwch a'r defnydd o gyfarfodydd ffurfio amlasiantaeth wedi'u harwain gan seicoleg addysg yn cefnogi dadansoddiad manwl o effaith trawma ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn. Roedd cynnwys asiantaethau partner yn y cyfarfodydd ffurfio yn cefnogi rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel, a oedd yn berthnasol o ystyried y lefel uchel o anghenion cymhleth a natur agored i niwed y plant yn y sampl achosion. Canfu'r arolygwyr sawl enghraifft o asesu amlasiantaeth effeithiol gyda gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd plant, gan arwain at asesiad cyfannol o ddiogelwch y plentyn.

Roedd asesu i gadw pobl eraill yn ddiogel yn ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr ym mhob achos perthnasol. Roedd lefel briodol o barhad a chefnogaeth wrth gysylltu â dioddefwyr uniongyrchol. Gellid cryfhau'r ystyriaeth a roddid i ddiogelwch y cyhoedd ehangach a dioddefwyr posibl yn y dyfodol drwy sicrhau bod pob ymddygiad niweidiol yn cael ei nodi a'i ddadansoddi i bennu pwy yn union sydd fwyaf mewn perygl ac ym mha amgylchiadau y gellid achosi niwed.

[2] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 2.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn gyfannol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[3] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar y canlynol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| cefnogi ymataliad y plentyn? | **100%** |
| cadw'r plentyn yn ddiogel? | 83% |
| cadw pobl eraill yn ddiogel? | 83% |

Mae gwaith cynllunio ar gyfer ymatal yn gryfder ac roedd arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma yn gwella'r gwaith hwn. Roedd y gwaith cynllunio'n ystyried effaith proffil datblygiadol, anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau personol plentyn a oedd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at sut byddai rhyngweithio ac ymyriadau'n cael eu darparu. Cafodd cynlluniau'r plant eu cynhyrchu ar y cyd gyda'r plentyn a'r rhiant, neu'r gofalwr a gwelsom ymgysylltu ystyrlon ym mhob achos a arolygwyd. Yn gadarnhaol, arweiniodd hyn at greu cynlluniau unigol ac wedi'u teilwra a oedd yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer darparu ymyriadau gyda phlant.

Roedd cynllunio rhwng y TCI a'r tîm allgymorth ieuenctid i gefnogi plant gyda chyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gryfder wrth hyrwyddo ymatal. Gwelsom hefyd enghreifftiau o gynllunio effeithiol rhwng y TCI ac iechyd i liniaru pryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad hunan-niweidio, a rhwng y TCI ac arbenigwyr camddefnyddio sylweddau i sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o'r cynlluniau lleihau niwed.

Roedd cynllunio i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Mae'r bartneriaeth yn mynd i gyfarfodydd risgiau a diogelwch wedi'u harwain gan y TCI ac mae hyn yn darparu goruchwyliaeth amlasiantaeth ar gyfer plant yr aseswyd eu bod yn cyflwyno cryn bryderon o ran diogelwch a llesiant a/neu risgiau uchel o niwed difrifol i eraill. Gwelsom amrywiaeth o gyfarfodydd partneriaeth eraill a gynhaliwyd gan wasanaethau, iechyd ac addysg plant yn annog trafodaethau amlasiantaeth, ond nid oedd bob amser yn glir sut roedd y gweithgareddau cynllunio a'r cynlluniau asiantaeth penodol yn cyd-fynd â'i gilydd. Er enghraifft, byddai plant sydd mewn perygl o niwed y tu allan i'r teulu, fel safon ofynnol, wedi cael cynllun gofal a chymorth neu gynllun amddiffyn plant, cynllun camfanteisio ar blant a chynllun TCI. Er i ni ganfod sawl enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng y TCI a gofal cymdeithasol plant, nid oedd hyn bob amser yn arwain at gysondeb rhwng y cynlluniau.

Roedd y gwaith cynllunio wrth gefn i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel yn ddigonol ym mhob achos. Gwnaed hyn yn arbennig o dda pan oedd y cynllun wrth gefn wedi'i deilwra i amgylchiadau'r plentyn ac yn cofnodi camau gweithredu penodol a oedd yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau'r bartneriaeth, a'r amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu.

[3] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 2.3. Gweithredu a darparu

| Mae gwasanaethau cydlynol, personol o safon gyda ffocws pendant yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Rhagorol |
|---|---|

Mae ein sgôr[4] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn gwneud y canlynol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | **83%** |
| cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **83%** |
| cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | **83%** |

Roedd y dull partneriaeth cryf a welsom yn y gwaith asesu a chynllunio yn parhau o ran darparu gwasanaethau i blant. Roedd y TCI, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol plant, yr heddlu a'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel yn y mwyafrif helaeth o achosion. Pan oedd plant yn cael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol, gwelsom ymdrechion dygn gan ymarferwyr i gynnwys y plentyn a'r darparwr gofal yng ngofynion y gorchymyn llys. Canfu'r arolygwyr nifer o enghreifftiau lle'r oedd arweinwyr y TCI yn dwyn asiantaethau eraill i gyfrif os nad oedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn diwallu anghenion plant.

Roedd y cyfarfodydd ffurfio a roddwyd ar waith ar gyfer y Model Adfer ar ôl Trawma a Rheoli Achosion Uwch yn golygu bod ymarferwyr yn addasu'r rhyngweithio a'r ymyriadau fel mater o drefn yn unol â phroffiliau datblygiadol y plant. Yn sgil ymgysylltiad ystyrlon staff y bartneriaeth yn y cyfarfodydd ffurfio, roedd cyd-ddealltwriaeth o'r dulliau gweithredu sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion plant. Er enghraifft, ar ôl mynychu cyfarfod ffurfio Rheoli Achosion Uwch, roedd y gweithiwr allgymorth ieuenctid yn deall nad oedd plentyn yn barod i ymgymryd â swydd amser llawn ac felly, cytunodd gyda'r plentyn y byddent yn cyfarfod yn rheolaidd i greu trefn reolaidd ac ymdeimlad o strwythur. Arweiniodd hyn at ganlyniad cadarnhaol ac aeth y plentyn yn ei flaen i gwblhau gweithgareddau a chyrsiau adeiladol ym maes coginio a chodi a chario.

Mewn enghraifft arall, rhoddodd ymarferydd gefnogaeth helaeth i blentyn a oedd yn cael trafferth rheoli ei emosiynau oherwydd effaith trawma a phryderon iechyd meddwl posibl, i gymryd rhan yn ei sesiynau TCI. Roedd yr ymarferydd yn rhoi ffiniau cyson ar waith ac yn sicrhau bod cymorth dilynol yn cael ei ddarparu i'r plentyn yn dilyn sesiynau arbennig o anodd.

Yn yr un achos lle ystyriwyd nad oedd diogelwch y plentyn ac eraill wedi cael ei sicrhau'n ddigonol, roedd rhwystrau wedi bod o ran cynnwys y plentyn, ac roedd newidiadau i'r trefniadau staffio yn golygu nad oedd hyn wedi cael sylw ac na chymerwyd camau gweithredu'n brydlon.

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[5] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar y canlynol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| cefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| cadw'r plentyn yn ddiogel? | **83%** |
| cadw pobl eraill yn ddiogel? | 100% |

Roedd adolygiadau ffurfiol a phroses barhaus o adolygu ymataliad, diogelwch y plentyn a diogelwch eraill yn gryfder. Roedd y ffaith bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac yn brydlon ymysg y bartneriaeth yn ategu hyn.

Roedd y gwaith adolygu'n cefnogi ymataliad y plentyn ym mhob achos a arolygwyd. Roedd ymgysylltiad y plant ag ymyriadau a'u cynnydd cyffredinol yn cael ei ystyried yn dda. Roedd ymarferwyr yn addasu ymyriadau a sesiynau yn rheolaidd yn seiliedig ar adolygu gweithgarwch ac adborth gan asiantaethau eraill. Roedd yr adolygiad yn parhau i adeiladu ar gryfderau plant ac yn ystyried newidiadau i'w hamgylchiadau personol, er y byddai'n fuddiol i fwy o rieni neu ofalwyr fod yn rhan o'r broses adolygu.

Canfu'r arolygwyr fod adolygu tua diwedd y gorchymyn llys yn cynnwys ystyried gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol a fyddai'n allweddol i strategaethau cynllunio ar gyfer gadael. Cafodd y model gwasanaeth ieuenctid integredig ei ddefnyddio i ddarparu cymorth cofleidiol i blant.

Arweiniodd adolygiad parhaus o'r pryderon sy'n gysylltiedig â diogelwch y plentyn at atgyfeiriadau diogelu prydlon, trafodaethau strategaeth a defnyddio cyfarfodydd risgiau a diogelwch 'unigol' y TCI a gafodd eu trefnu ar frys. Yn yr un modd, cafodd gwybodaeth a rannwyd gan yr heddlu a'r ysgol a oedd yn manylu ar bryderon ynghylch diogelwch eraill ei rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol yn brydlon. Roedd hyn yn arwain at greu cynlluniau diogelwch a mwy o gymorth a mesurau monitro.

Roedd y dull partneriaeth ymatebol o nodi a mynd i'r afael â'r pryderon sy'n codi wedi arwain at addasiadau effeithiol i'r cynllun gwaith parhaus i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel ym mhob achos perthnasol.

Yn yr un achos lle na chadwyd y plentyn yn ddigon diogel, nid oedd y gweithgareddau adolygu yn gyson â'r wybodaeth a gafwyd gan wasanaethau plant na chynnwys y cynllun camfanteisio ar blant.

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

# Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom arolygu chwe achos a oedd yng ngofal y TCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad amodol ieuenctid, dau rybuddiad ieuenctid a thri datrysiad cymunedol.

## 3.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[6] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r asesiad yn dadansoddi'r canlynol yn ddigonol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| sut mae cefnogi ymataliad y plentyn? | 50% |
| sut mae cadw'r plentyn yn ddiogel? | 50% |
| sut mae cadw pobl eraill yn ddiogel? | **33%** |

Mae'r TCI wedi cynnal adolygiad system gyfan o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, ac nid oedd y polisïau, y prosesau na'r panel amlasiantaeth newydd sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn adeg yr arolygiad. Gwelsom oedi rhwng dyddiad y drosedd ac atgyfeiriad yr heddlu at y TCI. Fodd bynnag, ar ôl i'r wybodaeth ddod i law y TCI, gwelsom fod pob achos wedi cael ei ddatrys yn brydlon.

Canfu'r arolygwyr amrywiaeth o ran ansawdd asesu datrysiadau y tu allan i'r llys. Gwelsom sawl enghraifft o arfer da gydag asesiad cryf o ymataliad plentyn, ei ddiogelwch, a diogelwch pobl eraill, ond roedd hyn yn anghyson.

Roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn yn hanner yr achosion a arolygwyd. Yn yr achosion lle cefnogwyd hyn yn dda, casglwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill a'i dadansoddi i roi darlun cyfannol o anghenion a chryfderau'r plentyn. Gwelsom sawl enghraifft o ymarferwyr yn dadansoddi anghenion amrywiaeth plant yn effeithiol ac yn dangos dealltwriaeth o effaith niwroamrywiaeth a thrawma ar ymddygiad ac arddull ymgysylltu'r plentyn. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn mewn digon o achosion, ac roedd anghysondeb o ran sut cafodd yr wybodaeth ei dwyn ynghyd a'i dadansoddi. Roedd llawer o asesiadau'n cynnwys gormod o ddisgrifiadau a dim digon o ddadansoddi.

Roedd y gwaith asesu i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol yn hanner yr achosion a arolygwyd. Canfuom enghreifftiau o golli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir gan ofal cymdeithasol plant i lywio dadansoddiad cyfannol o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch y plentyn. Mewn achosion eraill, cafodd canlyniadau andwyol eu rhestru ond nid oedd chwilfrydedd proffesiynol wrth ddadansoddi'r effaith ar ddiogelwch corfforol y plentyn a'i lesiant emosiynol.

[6] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

Roedd asesu i gadw pobl eraill yn ddiogel yn ddigonol yn lleiafrif yr achosion a arolygwyd. Nid oedd ymarferwyr yn dangos yn gyson pam eu bod wedi eithrio ymddygiad niweidiol blaenorol perthnasol rhai plant yn eu dadansoddiad risg presennol. Arweiniodd hyn at rai bylchau yn y ddealltwriaeth o bwy oedd mewn perygl, natur y risg honno, a beth gellid ei roi ar waith i gadw pobl eraill yn ddiogel. Nid oedd prosesau sicrhau ansawdd a goruchwylio rheolwyr wedi canfod diffygion mewn arferion asesu.

## 3.2. Cynllunio

| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr. | Da |
|---|---|

Mae ein sgôr[7] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ar y canlynol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| cefnogi ymataliad y plentyn? | 83% |
| cadw'r plentyn yn ddiogel? | **67%** |
| cadw pobl eraill yn ddiogel? | **67%** |

Canfu'r arolygwyr ddefnydd effeithiol o'r ddogfen 'fy nghynllun' a gynhyrchwyd ar y cyd gan ymarferwyr a phlant a'u rhieni neu eu gofalwyr. Roedd y gweithgaredd cynllunio yn seiliedig ar gryfderau ac yn adeiladu ar ffactorau amddiffynnol y plant. Gwelsom enghreifftiau o gynllunio unigol i hyrwyddo ymgysylltiad plentyn ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gweithgareddau dargyfeiriol yn y gymuned. Pan oedd y gwaith cynllunio'n ystyried anghenion amrywiaeth y plentyn yn ddigonol, roedd yn cael ei wneud yn dda gyda dadansoddiad trawiadol o effaith aeddfedrwydd, arddull dysgu a niwroamrywiaeth y plentyn.

Cafodd y gwaith cynllunio i hyrwyddo diogelwch y plentyn ei hyrwyddo'n ddigonol yn y mwyafrif rhesymol o achosion. Lle'r oedd hyn yn cael ei wneud yn dda, gwelsom enghreifftiau o gynllunio ar y cyd â gwasanaethau ieuenctid, addysg a gofal cymdeithasol plant lle'r oedd dulliau cydlynol o gadw plant yn ddiogel yn cael eu hyrwyddo. Roedd y gweithgareddau cynllunio'n gryfach i'r plant hynny a drafodwyd yn y fforymau risgiau a diogelwch amlasiantaeth dan arweiniad y TCI a'r cyfarfodydd ffurfio Rheoli Achosion Uwch.  Fodd bynnag, er bod y fforymau amlddisgyblaethol wedi gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, nid oedd hyn bob amser yn arwain at gysoni cynlluniau i gadw'r plentyn yn ddiogel. Yn ddiweddar, mae'r TCI wedi ehangu aelodaeth y panel gwneud penderfyniadau ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys i gynnwys cynrychiolwyr o ofal cymdeithasol ac addysg plant, gan roi cyfle i gydweithio'n gynnar a chysoni cynlluniau i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel.

Mae cynllunio'n rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau dioddefwyr yn y mwyafrif helaeth o achosion. Canfu'r arolygwyr enghreifftiau o gynllunio ar y cyd â darpariaethau addysg i gadw'r dioddefwr a disgyblion eraill yn ddiogel ac i roi ystyriaeth briodol i gyfiawnder adferol.

Yn gyffredinol, canfu'r arolygwyr fod ansawdd y cynlluniau wrth gefn ar gyfer diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill yn ddigonol. Mae hyn yn berthnasol, oherwydd dylai fod cynllun gweithredu clir ar waith os yw lefel y risg i blentyn, neu i eraill, yn cynyddu neu'n gostwng.  Yn y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol a arolygwyd, mae'r cynlluniau wrth gefn yn nodi camau gweithredu a oedd yn benodol i amgylchiadau'r plentyn a'r ymatebion manwl i'w cymryd os, neu pryd, byddai'r amgylchiadau'n newid.

[7] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 3.3. Gweithredu a darparu

| Mae gwasanaethau cydlynol, personol o safon gyda ffocws pendant yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Da |
|---|---|

Mae ein sgôr[8] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| **A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn cefnogi'r canlynol yn effeithiol:** | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| ymataliad y plentyn? | **67%** |
| diogelwch y plentyn? | 83% |
| diogelwch pobl eraill? | 83% |

Canfu'r arolygwyr ymdrechion dwys i hyrwyddo ymgysylltiad plant a oedd yn cael trafferth cymryd rhan yn eu datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd ymarferwyr yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a rhieni neu ofalwyr er mwyn deall y ffordd orau o addasu eu dull gweithredu i feithrin perthynas â'r plentyn. Roedd ymarferwyr yn sgrinio anghenion cyfathrebu plant yn rheolaidd ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd teilwra ymyriadau.  Byddai mewnbwn gan arbenigwr lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i blant.

Roedd y TCI yn darparu amrywiaeth o ymyriadau a oedd yn briodol i anghenion a risgiau unigol y plentyn gan gynnwys sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar reoleiddio emosiynol, effaith ar ddioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth o gamfanteisio. Roedd darparu ymyriadau camddefnyddio sylweddau yn gryfder yn yr achosion a arolygwyd, a gwelsom ddulliau sensitif a oedd yn cydbwyso diogelwch y plentyn â diogelwch eraill.

Defnyddiwyd y rhaglen haf a hwylusir gan y TCI mewn modd cadarnhaol i gefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau, mewn grwpiau bach, fel ffordd o ddatblygu sgiliau cymdeithasol a hyder. Siaradodd yr arolygwyr â phlant yn ystod y gwaith maes ac fe wnaethant ategu elfennau cadarnhaol rhaglen yr haf o ran darparu strwythur a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent fel arall ar gael iddynt.

Ym mhob achos, gwelsom fod y TCI yn hyrwyddo integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau prif ffrwd. Gwnaeth hyn dros gyfnod y datrysiad y tu allan i'r llys, ond roedd hefyd yn ei ddefnyddio fel dull o sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid cyffredinol ac wedi'u targedu yn gallu cynnig cymorth pan oedd y datrysiad yn dod i ben.

Roedd darparu gwasanaeth i gefnogi diogelwch y plentyn yn cael ei wneud yn dda yn y mwyafrif helaeth o achosion.  Roedd ymarferwyr yn ymatebol o ran nodi pryderon diogelwch a oedd yn codi, gan arwain at atgyfeiriadau diogelu prydlon a phriodol at ofal cymdeithasol plant a dycnwch wrth fynd ar drywydd canlyniadau'r atgyfeiriadau. Roedd fforwm risgiau a diogelwch amlasiantaeth dan arweiniad y TCI yn darparu goruchwyliaeth effeithiol i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel. Ystyriwyd diogelwch ymarferwyr hefyd gydag enghreifftiau o gydweithio i liniaru pryderon ynghylch risgiau i staff.

[8] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.

## 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrys achosion y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Angen gwella |

Fe wnaethom hefyd edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Yn ddiweddar, mae'r TCI wedi cynnal adolygiad system gyfan o arferion datrys y tu allan i'r llys. Mae fersiwn ddrafft ar gael o'r fframwaith datrys achosion plant y tu allan i'r llys Sir Benfro ar gyfer 2024-2026 ac mae wedi cael ei greu i adlewyrchu'r canllawiau rheoli achosion diweddaraf, y matrics difrifoldeb plant, canfyddiadau o adroddiadau arolygu a chyflwyno'r adnodd asesu atal a dargyfeirio. Mae'r fframwaith drafft wedi cael ei rannu â'r bartneriaeth ar gyfer ymgynghori a bydd yn cael ei gyflwyno i grŵp cyfranogiad plant. Bydd cyfarfod y bwrdd rheoli ym mis Ionawr 2025 yn craffu ar y fframwaith ac yn ei gadarnhau'n derfynol.
- Fel rhan o'r adolygiad o'r system gyfan, cynhaliodd arweinwyr y TCI archwiliad o waith achos datrysiadau y tu allan i'r llys. Arweiniodd y canfyddiadau at ddatblygu panel amlasiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys ac at gomisiynu hyfforddiant asesu i staff.
- Mae'r TCI wedi darparu hyfforddiant datrysiadau y tu allan i'r llys i gynrychiolwyr o wasanaethau plant ac addysg fel ffordd o hyrwyddo eu hymgysylltiad ystyrlon â phaneli gwneud penderfyniadau diwygiedig y biwro.
- Mae anghenion unigol plant a rhieni neu ofalwyr yn llywio'r trefniadau ar gyfer panel gwneud penderfyniadau'r biwro.
- Deallir elfennau gwirfoddol datrysiadau y tu allan i'r llys, a chynigir ymyriad ar gyfer pob datrysiad. Mae gan blant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys fynediad cyfartal at ymyriadau a gwasanaethau.
- Er nad yw'n ofynnol yn aml, mae proses uwchgyfeirio sefydledig os na fydd y panel yn gallu penderfynu ar ddatrysiad. Mae hyn yn galluogi achosion i gael eu hadolygu gan uwch staff yn y TCI a'r heddlu i'w datrys.
- Cysylltir â dioddefwyr ac ystyrir eu hanghenion unigol wrth benderfynu ar ddulliau ymgysylltu yn y dyfodol. Mae datganiadau effaith ar ddioddefwyr yn cael eu rhannu'n briodol â'r panel amlasiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau.
- Mae'r panel craffu rhanbarthol ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn dadansoddi priodoldeb a chysondeb y broses o ddatrys achosion.
- Mae arweinwyr y TCI wedi bod yn rhagweithiol o ran uwchgyfeirio pryderon mewn perthynas ag argaeledd pob datrysiad dargyfeiriol i blant yn Sir Benfro.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae'r heddlu wedi ymgynghori ar y fframwaith diwygiedig ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer plant ond nid oes protocol cydweithio rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r TCI. Canfu'r arolygwyr enghreifftiau o oedi sylweddol rhwng y drosedd ac atgyfeiriad yr heddlu at y TCI a dull anghyson o ddefnyddio canlyniadau dargyfeiriol ac erlyniadau gohiriedig. Byddai polisi cydweithio rhanbarthol Heddlu Dyfed-Powys yn hyrwyddo dull safonol a theg o ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Mae polisi, prosesau a darpariaeth y tu allan i'r llys mewn cyfnod o drawsnewid. Mae cynrychiolaeth panel gwneud penderfyniadau'r biwro wedi'i hymestyn i gynnwys gwasanaethau plant ac addysg, ond megis dechrau mae'r trefniadau, a bydd angen buddsoddiad gan y bartneriaeth i sicrhau eu bod yn effeithiol.
- Mae Canlyniad 22 ar gael, ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod prosesau'n cael eu datblygu a'u gwreiddio.
- Mewn sawl achos, roedd plant yn ymddangos yn y llys am droseddau a allai fod yn gymwys i gael eu datrys y tu allan i'r llys. Nid yw'r TCI wedi cynnal gwerthusiad penodol sy'n edrych ar y cynnydd mewn gorchmynion atgyfeirio.
- Mae angen mwy o gysondeb wrth sicrhau ansawdd gweithgareddau asesu y tu allan i'r llys, er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill.

# 4.1. Ailsefydlu

| 4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu | |
|---|---|
| Ceir gwasanaeth ailsefydlu o safon sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. | Angen gwella |

Fe wnaethom edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, fe wnaethom arolygu un achos a oedd yng ngofal y TCI a oedd wedi cael ei ddedfrydu i'r ddalfa.  Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Mae'r bwrdd rheoli yn goruchwylio plant sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i'r ddalfa.  Ceir ymateb partneriaeth rhagweithiol a chydweithredol i gynllunio ailsefydlu, sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid statudol ac anstatudol.
- Cafodd Polisi Ailsefydlu TCI Sir Benfro ei gymeradwyo yn 2023 ar ôl ymgynghori â'r bartneriaeth. Mae'r polisi'n cynnwys egwyddorion ailsefydlu adeiladol a'r saith llwybr at ailsefydlu.
- Mae cyfarfodydd rheoli risgiau a diogelwch y TCI yn darparu fforwm cyfannol ar gyfer cynllunio ailsefydlu. Mae cynrychiolwyr yr heddlu, gwasanaethau plant, iechyd ac addysg yn mynychu'r cyfarfodydd. Darperir gwerth ychwanegol gan bartneriaid anstatudol sy'n ymwneud â chefnogi'r plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr.
- Deallwyd pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â phlant yn y ddalfa a'u rhieni neu'u gofalwyr. Roedd y cyswllt gan y TCI yn aml ac yn ystyrlon, a arweiniodd at gymorth parhaus ac at nodi pryderon o ran risgiau a diogelwch yn gynnar.
- Mae dulliau partneriaeth yn cefnogi pecynnau mechnïaeth a dewisiadau eraill yn lle dedfrydau yn y ddalfa.
- Mae'r TCI a'r bartneriaeth wedi eirioli dros leoli plant mewn darpariaethau diogel mewn dalfeydd yng Nghymru fel ffordd o ddiwallu anghenion diwylliannol ac amrywiaeth.
- Mae dulliau rheoli achosion uwch ar gael ac yn cael eu defnyddio gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae heriau o ran darparu llety addas yn golygu nad y ddarpariaeth yw'r un fwyaf priodol bob amser a bod plant yn gallu cael eu lleoli mewn lleoliadau Gweithredu Heb Gofrestru. Mae trefniadau craffu a monitro ar waith, ond mae angen rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd â bwrdd rheoli'r TCI. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y problemau hyn ac yn gweithio i roi sylw i'r diffygion yn y lleoliadau sydd ar gael.
- Mae'r bwrdd rheoli yn goruchwylio ailsefydlu ond nid oes prosesau dysgu ffurfiol i ddarparu gwerthusiad parhaus o'r ddarpariaeth.
- Nid yw'r polisi'n rhoi digon o ystyriaeth i anghenion amrywiaeth a nodweddion gwarchodedig plant.

- Nid oedd y polisi'n eglur o ran diwallu anghenion dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl.
- Nid oedd unrhyw sôn am Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn y polisi.
- Nid oedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant penodol ar arferion ailsefydlu.
- Ni chafodd barn plant a'u rhieni neu ofalwyr ei chasglu yn ffurfiol i lywio'r gwaith o werthuso ac adolygu'r ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu.
- Nid oedd y rhestr ddarllen a argymhellwyd wedi cael ei diweddaru i gynnwys meysydd ymarfer ailsefydlu cyfredol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

- data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI
- rhestr termau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.